**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Y Fonesig Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

27 Awst 2019

**Trefniadau Gwrth-dwyll yn y Sector Cyhoeddus**

Annwyl Shan,

Ar ôl cyhoeddi adroddiad Menter Twyll Cenedlaethol (NFI) bob dwy flynedd yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018 a'i adroddiad ar Drefniadau Gwrth-Dwyll yn Sector Cyhoeddus Cymru yn 2019, trefnodd y Pwyllgor ddigwyddiad i randdeiliaid ar 1 Gorffennaf 2019 i drafod a rhannu arfer da ar drefniadau Gwrth-dwyll yn y Sector Cyhoeddus. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y GIG, CIPFA a Chomisiwn y Cynulliad.

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r pwnc hwn o ddiddordeb sylweddol i drethdalwyr yng Nghymru, gan bod adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn colli hyd at £1 biliwn y flwyddyn oherwydd twyll.

Mae'r Pwyllgor yn llwyr gymeradwyo barn yr Archwilydd Cyffredinol fod "pob punt sy'n cael ei dwyn o'r sector cyhoeddus yn golygu bod llai i'w wario ar wasanaethau allweddol fel iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol". Ar adeg o lymder, mae'n bwysicach nag erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ceisio lleihau i'r eithaf y risg o golledion drwy dwyll.

Roedd y trafodaethau yn ein digwyddiad yn adleisio canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ac roedd rhai themâu cyson, gan gynnwys:

- Mae'r adnoddau a neilltuir i weithgarwch gwrth-dwyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

- Mae GIG Cymru yn buddsoddi'n helaeth mewn gweithgarwch gwrth-dwyll cenedlaethol a lleol;
- Mae gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ymchwilio i dwyll, yn hytrach na'i atal; ac
- ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, mae trefniadau o ran adnoddau gwrth-dwyll yn amrywio llawer o un cyngor i'r llall ac nid oes tîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau gwrth-dwyll llywodraeth leol nac unrhyw strategaeth neu fframwaith polisi trosfwaol.

O ran llywodraeth leol, roeddem yn arbennig o bryderus clywed nad oes gan y mwyafrif o gynghorau bellach dîm gwrth-dwyll pwrpasol ledled y cyngor, ac yn lle hynny, mae'r rôl gwrth-dwyll mewn llawer o gynghorau wedi'i dynodi i unedau Archwilio Mewnol. Nid yw pob tîm archwilio mewnol wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn y maes arbenigol hwn, ac nid oes gan lawer o dimau brofiad gwrth-dwyll.

Fodd bynnag, clywsom hefyd am rai enghreifftiau o weithio da ar y cyd, drwy fentrau fel y Fenter Twyll Cenedlaethol, ymarferion paru data rhagweithiol eraill, Cyfnewidfa Arfer Da yr Archwilydd Cyffredinol, y gweithdai a gaiff eu cynnal gan Lywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol yn dilyn ymchwiliadau twyll Llywodraeth Cymru, Fforwm Twyll Cymru, Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaeth y Llywodraeth a'r Grŵp Cudd-wybodaeth Twyll Trefnedig.

Hoffem weld rhagor o gydweithio a gaiff ei arwain ar lefel genedlaethol yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth ac arfer da ag awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, nid oes grŵp cyffredinol na rhwydwaith proffesiynol sy'n hyrwyddo gwrth-dwyll yn benodol ym maes llywodraeth leol. Mae gan gynghorau rai cysylltiadau â CIPFA ac maent yn aml yn defnyddio gwybodaeth gyhoeddedig y sefydliad (er enghraifft, y 'Strategaeth Ymladd Twyll yn Lleol'). Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o gynghorau'n tueddu i ymgysylltu'n weithredol â CIPFA. Ar sail cost, dim ond dau gyngor sydd ar hyn o bryd yn tanysgrifio i'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael gan Ganolfan Gwrth-Dwyll CIPFA.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried a oes posibilrwydd a chwmpas ar gyfer cefnogi tîm gwrth-dwyll cenedlaethol i weithio ledled Cymru i sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn ymgymryd ag o leiaf lefel sylfaenol o waith gwrth-dwyll ym mhob ardal awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, ar draws y sector cyhoeddus clywsom nad oes digon o adnoddau wedi'u buddsoddi mewn gwaith gwrth-dwyll, a bod ffocws yr adnodd cyfyngedig hwn ar ganfod twyll yn hytrach na'i atal. Mae potensial, fodd bynnag, i wneud llawer

rhagor i atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf drwy rannu'r data a'r cyfoeth o wybodaeth a gedwir ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus, y gellid eu defnyddio i helpu i atal twyll.

Mae'n amlwg bod awydd gwirioneddol ar draws y sector cyhoeddus i weithio'n well gyda'n gilydd, a chlywsom fod y brif broblem o ran rhannu data yng Nghymru yn deillio o bryderon ynghylch pa wybodaeth y gellir ei rhannu'n gyfreithlon, ynghyd â diffyg unrhyw safonau ar gyfer cofnodi a phrosesu gwybodaeth. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau iddi ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a chanllawiau o ansawdd gwell ar rannu gwybodaeth, i helpu i gryfhau a gwella effaith gweithgareddau gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i graffu ar arferion gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a chaiff ei galonogi yn arbennig bod yr Archwilydd Cyffredinol, gan adeiladu ar ei adolygiad cychwynnol o'r tirwedd gwrth-dwyll, yn bwriadu ymgymryd â gwaith archwilio lleol ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i edrych yn fanwl ar ba mor effeithiol yw eu trefniadau gwrth-dwyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Rydym yn edrych ymlaen at gael ei adroddiad ar y gwaith hwnnw y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**